# Gweithdai Sadwrn Iaith

5 sesiwn iaith ar Zoom sy’n addas i ddysgwr ar lefel Uwch 3+, Gloywi neu i siaradwyr rhugl. Nod y cyrsiau hyn yw mynd i’r afael â rhai o gymlethdodau’r iaith a’r gwahaniaeth rhwng Cymraeg ffurfiol a’r iaith lafar. Dim ond £7 y sesiwn.

**SADWRN 25/1/25 9:30-13.00**

**Defnyddio os a pe**
Os yw, os ydy, os mae, os oes – beth sy’n gywir? Pe bawn yn gyfoethog, taswn i’n gyfoethog neu ’swn i’n gyfoethog – beth yw’r gwahaniaeth? AT25-31-GI

**SADWRN 22/2/25 9:30-13.00**

**Cywair – Cymraeg ffurfiol ac anffurfiol**
Yr Esgob William Morgan a Pobol y Cwm.
AT25-32-GI

**SADWRN 29/3/25 9:30-13.00**

**Bod yn y gorffennol (bues i/bûm), ai ac a, mi a fe, ni(d) a na(d)**
Ar lan y môr mae carreg wastad, lle bûm yn siarad gair â’m cariad. Fuoch chi erioed yn morio? Bues i’n byw yn Ffrainc. AT25-33-GI

**SADWRN 26/4/25 9:30-13.00**

**Cymalau perthynol: sy(dd), a neu y?**
Welaist ti’r teulu sy’n prynu’r tŷ drws nesaf? Welaist ti’r teulu a brynodd y tŷ drws nesaf? Y tŷ drws nesaf y mae’r teulu yn ei brynu. A beth yw swyddogaeth y gair ‘ei’ yn y frawddeg olaf?
AT25-34-GI

**SADWRN 31/5/25 9:30-13.00**

**Dangosolion: hwn, hwnnw, hwnna, hon, honno, honna, y rhain, y rheina ac yn y blaen**
AT25-35-GI

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire